Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1125 (Cy. 196)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu nad yw cyfandaliadau a delir i athrawon ysgol yng Nghymru o dan y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg yn cael eu trin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf Addysg 2002 ac felly nad ydynt yn ddarostyngedig i'r fframwaith tâl statudol ac nad ydynt yn bensiynadwy.

Mae canllawiau ar y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg wedi eu cyhoeddi ar wefan llyw.cymru yn https://www.llyw.cymru/y-fwrsariaeth-i-gadw-athrawon-cymraeg-mewn-addysg-canllawiau-i-ymgeiswyr-html.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Addysgeg, Gyrfa Cynnar ac Ymarferwyr Cymraeg, Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1125 (Cy. 196)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

*Gwnaed* *25 Hydref 2023*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *27 Hydref 2023*

*Yn dod i rym* *17 Tachwedd 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 123(4)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a daw i rym ar 17 Tachwedd 2023.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i athrawon ysgol yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddir i "school teacher" gan adran 122(3) i (6) o Ddeddf Addysg 2002(**2**);

mae i "awdurdod lleol yng Nghymru" yr ystyr a roddir i "local authority in Wales" gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996(**3**).

### Cymelldaliadau i athrawon ysgol

**2.** Nid yw cyfandaliad a wneir i athro neu athrawes ysgol o dan y Cynllun Bwrsariaeth i Gadw Athrawon

(**1**) 2002 p. 32. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39(3) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(**2**) Diwygiwyd is-adrannau (3) a (4) o adran 122 gan erthygl 5(1) o O.S. 2010/1158 a chan baragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.

(**3**) Rhoddwyd "local authority in Wales" a diffiniadau eraill yn lle'r diffiniad o "local authority" gan erthygl 3(2)(b) o O.S. 2010/1158.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cymraeg mewn Addysg(**1**), gan awdurdod lleol yng Nghymru neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan awdurdod o'r fath, i'w drin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf Addysg 2002.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Hydref 2023

(**1**) ISBN 978-1-83504-879-5.